Elin Jones AC, Llywydd
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Elin Jones AM, Presiding Officer
National Assembly for Wales

Mike Hedges AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deisebau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Eich cyf:
Ein cyf: PO189/EJ/HP

15 Mehefin 2017

Annwyl Mike

P-04-526 Gwnewch Senedd TV yn hygyrch i bobl fyddar

Diolch am eich llythyr ynghylch y ddeiseb uchod.

Cywirdeb ac ansawdd dehongliad Iaith Arwyddion Prydain trafodion Cwestiynau'r Prif Weinidog

Fel y soniwyd yn eich llythyr dyddiedig 19 Mai 2017, mynegwyd pryderon gan aelodau byddar o'r cyhoedd a dehonglwyr Iaith Arwyddion Prydain ynghylch cywirdeb ac ansawdd y dehongliad o drafodion y Cyfarfod Llawn oherwydd cyflymder a chymhlethdod y deunydd pwnc a'r iaith dechnegol a ddefnyddir. Nid yw'r cyfyngiadau hyn wedi newid ac mae'n parhau i fod yn her enfawr darparu dehongliad byw a chywir. Fodd bynnag, rydym wedi bod yn gweithio ar nifer o welliannau yr wyf yn fwy na pharod rhoi gwybod ichi amdanynt.

Yn dilyn cyfnod o waith ymchwil, rydym wedi gosod system archif darlledu digidol newydd. Un o fanteision y system newydd yw y gallwn recordio dehongliad Iaith Arwyddion Prydain yn syth ar ôl i Gwestiynau'r Prif Weinidog ddod i ben, gan roi amser i'r dehonglydd wylio'r sesiwn a pharatoi nodiadau. Mae hyn wedi gwella cywirdeb ac ansawdd y dehongliad o'r trafodion a ddarlledir, ac wedi cael ei groesawu gan y dehonglwyr.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
Llywydd@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru
0300 200 7403

National Assembly for Wales
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
Llywydd@assembly.wales
www.assembly.wales
0300 200 7403

Elin Jones AC, Llywydd
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Elin Jones AM, Presiding Officer
National Assembly for Wales

Ym mis Medi 2014, cafodd y gwasanaeth dehongli ei adfer gan ddefnyddio'r dechnoleg newydd hon, gydag S4C yn darlledu dehongliad Iaith Arwyddion Prydain o Gwestiynau'r Prif Weinidog ar y rhaglen 'Y Dydd yn y Cynulliad'. Gwnaeth S4C y penderfyniad i ddod â'r rhaglen 'Y Dydd yn y Cynulliad' i ben ym mis Ebrill 2016, ac mae'r Cynulliad, wrth gydnabod yr angen am y gwasanaeth hwn, wedi cymryd cyfrifoldeb am y gwasanaeth ers hynny.

Ar hyn o bryd rydym yn dangos Cwestiynau'r Prif Weinidog gydag arwyddion ac is-deitlau ar sianel YouTube y Cynulliad, a'r fersiwn gydag arwyddion ar Senedd.tv. Caiff adran newydd sy'n ymroddedig i drafodion gydag arwyddion ei sefydlu yn adran Mwy o'r Senedd ar Senedd.tv yn yr wythnosau nesaf, gan ei gwneud yn haws i ddefnyddwyr ddod o hyd i'r recordiadau hyn.

Efallai y bydd gennych hefyd ddiddordeb mewn gwybod bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi ennill y categori Rhagoriaeth mewn Gwasanaeth yn y gwobrau Action on Hearing Loss Cymru yn ddiweddar. Caiff y gwobrau eu trefnu i gydnabod llwyddiant yn darparu gwasanaethau sy'n ystyriol o bobl fyddar i'r hanner miliwn o bobl yng Nghymru sy'n fyddar neu'n drwm eu clyw.

Llwyddodd y Cynulliad i sicrhau achrediad Yn Uwch na Geiriau gan Action on Hearing Loss yn 2013, gan gadw'r achrediad yn 2014 a 2015. Hefyd, ar gyfer y ddwy flynedd ddiwethaf, cafodd y Cynulliad ei gyflwyno gyda Gwobr Rhagoriaeth Arian Action on Hearing Loss Cymru.

Os gallwn ddarparu unrhyw wybodaeth bellach, cofiwch roi gwybod imi.

Yn gywir

Elin Jones AC, Llywydd